

# Major's Barn

## Plannu Coetir

Plannu 30 o'r coed a llwyni canlynol gyda phellter o 2-3m rhyngdynt. Coed i fod yn egin-goed â gwreiddyn noeth (<1m o uchder) gyda gwiall, gwarchodwyr bioddiraddadwy a thomwellt rhisgl coed yn eu hamgylchynu mewn diamedr o 1m dros dir moel.

Enw Cyffredin	Enw Gwyddonol	Yn frodorol i'r Deyrnas Unedig?	Maint	Nifer y planhigion
Bedwen arian	<i>Betula pendula</i>	Ydy	>1m	20
Cerddinen	<i>Sorbus aucuparia</i>	Ydy	>1m	5
Collen	<i>Corylus avellana</i>	Ydy	>1m	5

## Dôl Blodau Gwyllt

Tyweirch i'w thynnu i ffwrdd a'i symud o'r safle ar gyfer ei ailgylchu. Tir i'w drin a'i hadu'n ysgafn gyda chymysgedd blodau gwyllt pwrpas cyffredinol arbennig "Emorsgate Wildflower mix EM3F" (wildseed.co.uk) cyfanswm o 4 cilogram. Hadau i'w gymysgu â thywod i gynorthwyo gyda hau cyfartal. Y dolydd blodau gwyllt i gael eu torri'n flynyddol yn yr hydref gyda thoriadau'n cael eu cymryd i ffwrdd.


## Plannwr wedi'i Godi

Plannwyr (gweler y cynllun am y dimensiynau cyffredinol), i'w hadeiladu o drawstiau derw (pob trawst 200mm o led a 100mm o ddyfnder) i ddyfnder o 600mm (dyfnder o 6 thrawst). Trawstiau i gael eu sgriwio at ei gilydd. Cwrs cyntaf i'w osod ar wely gwastad rwbol/morter yn ôl yr angen. Tu mewn y plannwr i'w leinio â daear-decstil. Plannwr y gwely planhigion i gael gwely draenio graean dwfn 75mm wedi'i orchuddio â chnu hidlo. Plannwr i'w llenwi hyd at lefel 50mm islaw'r ymyl uchaf gyda â chnu hidlo. Plannwr i'w llenwi hyd at lefel 50mm islaw'r ymyl uchaf llysiâu cymysg. Rhywogaethau i gynnwys betys arian, betys, brocoli, cafelo nero, mefus, corbwmpenni, cennin, roced.

Y gosodiad i'w amgáu gyda ffens polion, gyda'r pyst a'r rheiliau pren wedi'i thanaleiddio, 1.2 metr o uchder gyda giât sy'n cyd-fynd, y gellir ei chloi. Polion y ffens i fod tua 100mm x 18mm gyda bylchau o 90mm. Gwirwch ddimensiynau ar y safle unwaith y bydd gwelyau wedi cael eu hadeiladu.

## Mainc

Gosod y fanc yn gadarn i ddau sylfaen goncrit claddedig, 40 cilogram yr un. Defnyddiwch sedd wydn "Glasdon Countryside" <https://uk.glasdon.com/focus-on-parks/seating/park-benches/countryside-tm-seat> (neu ddewis arall tebyg sydd wedi'i gymeradwyo).



## Blwch Adar

Blwch nythu adar i'w osod ar bostyn pren wedi'i danaleiddio 3.6m a 95x95, wedi'i osod gyda sylfaen goncrit tanddaearol 20 cilogram, gyda 3m uwchben y ddaear. Y blwch adar i gael ei glymu'n ddiogel i ben y polyn, sy'n wynebu'r gogledd-ddwyrain. Defnyddiwch flwch Schwegler (neu ddewis arall tebyg wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor) gyda thwll diamedr 28mm

## Nodwedd infertebratau

Gosodwch westy pryfed Vivara Pro BugLife cymeradwy <https://www.vivarapro.co.uk/product/new-vivara-pro-corsica-insect-hotel-with-oak-legs/> (neu ddewis arall cymeradwy os nad yw ar gael) mewn lleoliad heulog ar ymyl ddeheuol y coetir sy'n cael ei blannu fel y dangosir ar y cynllun. Coesau i'w clymu i fracedi angor pyst ffens dur (600mm o ddyfnder) neu ddewis arall cymeradwy.

Prepared by The GIC on behalf of Monmouthshire County Council  
Contact: [gary@thegic.com](mailto:gary@thegic.com)

Date of Issue: 221123  
GIC\_0001101



Monmouthshire Local  
Nature Partnership



Partneriaeth Natur  
Lleol Sir Fynwy